Sana Shaikh

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwy'n frwdfrydig am weithio gyda mudiadau gwirfoddol oherwydd rwy'n credu yng ngrym pobl sy'n dod at ei gilydd i greu newid go iawn. Dechreuodd fy nhaith yn y maes iechyd cyhoeddus, lle y gwelais â'm llygaid fy hun y gwahaniaeth y gall cymunedau a mudiadau ymrwymedig ei wneud, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Fel Ymddiriedolwr yn Anabledd Dysgu Cymru a Swyddog Iechyd a Diogelwch gydag EYST Cymru, rwyf wedi bod ar y rheng flaen, yn gweithio'n agos gyda grwpiau amrywiol i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol dybryd. Rwy'n deall yr ymroddiad, yr angerdd a'r gwaith caled sydd eu hangen i wneud effaith ystyrlon. Rwy'n gwybod y gallwn gyflawni cymaint yn fwy gyda'n gilydd nag y gallwn ar ein pennau ein hunain.

Rwyf eisiau dod â'r profiad a'r egni hwn i Fwrdd CGGC, i helpu pob un ohonom ni i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd. Rwy'n credu yng nghenhadaeth CGGC i adeiladu sector gwirfoddol amrywiol a gwydn, ac rwy'n ymrwymedig i fod yn llais i bob un o'i aelodau – gan sicrhau ein bod yn barod am ba bynnag heriau a ddaw.

Os byddwch yn pleidleisio drosof fi, byddwch yn pleidleisio dros rywun a fydd yn gwrando, yn cefnogi ac yn gweithio ochr yn ochr â chi i adeiladu dyfodol cryfach, mwy cynhwysol i'n holl gymunedau yng Nghymru.